**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

seneddDCC@senedd.cymru

1 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dilyn y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Gweler fy ymateb i'r tri argymhelliad sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn Atodiad 1 isod.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

**Ymatebion i'r Argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dilyn gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

**Argymhelliad 1**

**Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi dyddiad i ni erbyn pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad cynnydd cyntaf ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd Sicrhau Cyfiawnder i Gymru ar 22 Chwefror 2024.

**Argymhelliad 2**

**Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad cychwynnol o gostau disgwyliedig y diwygiadau i Dribiwnlysoedd Cymru, ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r bil a fydd yn darparu ar gyfer y diwygiadau hynny.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae Comisiwn y Gyfraith eisoes wedi darparu asesiadau cychwynnol o gostau disgwyliedig y diwygiadau ac maent hefyd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn ar ddiwygio'r tribiwnlysoedd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r Bil yn nodi'n fanylach gostau disgwyliedig y diwygiadau.

Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Bil cyn ei gyflwyno. Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol blynyddol ym mis Mehefin 2023, nododd y Prif Weinidog fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn ymwneud â'r system dribiwnlysoedd ddatganoledig yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon. Fel y bu inni drafod pan oeddwn i gerbron y Pwyllgor yn gynharach yr wythnos hon, mae amseriad cyflwyno deddfwriaeth o'r fath, wrth gwrs, yn amodol ar y prosesau ar gyfer gosod y Rhaglen Ddeddfwriaethol, a bydd yn cael ei amlinellu gan y Prif Weinidog newydd. Mae nifer o gyfleoedd wedi bod i gymryd rhan yn y broses llunio polisïau, a hynny drwy'r ymgynghoriad sydd eisoes wedi'i gynnal gan Gomisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru yn sgil y Papur Gwyn. Rydym yn parhau i ymwneud â'r rhai y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt wrth inni gwblhau ei chynnwys. Edrychaf ymlaen at barhau i ymwneud â'r Senedd, y Pwyllgorau a'r rhanddeiliaid yn ystod hynt y ddeddfwriaeth.

**Argymhelliad 3**

**Ar ôl cwblhau ei hasesiad cychwynnol o adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fanwl i'r Senedd am sut y bydd y dyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 i ddatblygu canlyniadau gwaith y Comisiwn yn cael ei ddefnyddio.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Fel y mae'r Pwyllgor wedi'i nodi, gosodwyd y gyllideb ddrafft cyn inni gael adroddiad terfynol y Comisiwn. Fel Llywodraeth, byddwn yn ystyried yr adroddiad terfynol ac yn ymateb i'r Senedd maes o law. Bydd elfen costau staff i'r gyllideb, a fydd yn cael ei hystyried unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhellion y Comisiwn. Er hynny, mae'n amlwg y byddai angen rhaglen waith sylweddol i roi argymhellion y Comisiwn ar waith. Byddai nifer ohonynt yn argymhellion i Lywodraeth Cymru arwain arnynt, a byddai eraill yn gofyn am gydweithio â Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig eraill.

Yn rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, rydym wedi gwneud dyraniadau ychwanegol mewn nifer o feysydd yn y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd yr wythnos hon. Byddwn yn rhoi £1 miliwn yn ychwanegol i ddatblygu'r gwaith ar Ddiwygio Cyfansoddiadol. Mae hyn yn cynnwys cyllid i gaffael ymchwil ar ganlyniadau cyfiawnder yng Nghymru ac i helpu paratoadau ar gyfer datganoli. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i nodi mewn papur ar y cyd sy'n nodi ystod o feysydd y cytunwyd arnynt lle y mae dyraniadau wedi'u gwneud. Rwy'n fwy na pharod i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.